Cyngor Sir Caerfyrddin
Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd a enwir isod am y cyfnod o fis Mai 2015 tan fis Mai 2016 (Blwyddyn y Cyngor). Fe'i darperir er gwybodaeth i etholwyr, ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad yw barn y Cynghorydd ac nid yw'n adlewyrchu barn Cyngor Sir Caerfyrddin o reidrwydd.

Y Cynghorydd: Kevin Madge	**Adran Etholiadol: Y Garnant**

Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau

Pwyllgorau'r Cyngor	***Cofnod Presenoldeb***	
	Nifer	***Yn bresennol***
Y Cyngor Sir	14	11
Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	6	5
Pwyllgor Penodi "A" – Cyfarwyddwyr	2	2
Y Pwyllgor Cynllunio	24	17
Cyd-Bwyllgor y Pwyllgor Craffu – Cymunedau a'r Pwyllgor Cynllunio	2	1
Y Pwyllgor Craffu - Polisi ac Adnoddau		1*
Pwyllgor Craffu ar y Cyd - Cymunedau a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	1	1
Pwyllgor Craffu ar y Cyd - Addysg a Phlant a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	1	1
*Yn bresennol fel dirprwy		

Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth

Yn ystod Blwyddyn ddiwethaf y Cyngor rwyf wedi cynnal 20 cymhorthfa yn Ysgol y Bedol a Chlwb y Garnant. Rwyf hefyd wedi cynnal cymorthfeydd ar droed yn y strydoedd canlynol:

(1) Heol Cowel
(2) Clos Bryncam
(3) Heol Stepney
(4) Heol Ysgol Newydd
(5) Heol y Wern
(6) Heol Ceidrum Newydd
(7) Heol Ceidrim
(8) Maes y Fron
(9) Maesyrhendre

Yn ystod Blwyddyn ddiwethaf y Cyngor rwyf wedi cyflwyno 64 o ymholiadau drwy system ymholiadau'r Cyngor mewn perthynas â materion yn ward y Garnant, e.e.

(1) Torri'r borfa yn hen ysgol gynradd y Garnant
(2) Materion o ran Canolfan Ddydd y Garnant
(3) Problemau parcio, Heol y Coroni
(4) Bin gorlawn, Heol y Ficerdy, y Twyn

(5) Set dridarn a adawyd yn Heol Maes y Dderwen, y Twyn
(6) Gorchmynion Gwarchod Coed, Heol yr Esgob
(7) Graffiti, Parc Cwmaman
(8) Trosglwyddo ased o ran Canolfan Addysg Glanaman
(9) Materion yn ymwneud â Pharc Golwg yr Aman
(10) Cyffordd Maes y Bedol
(11) Mieri o Glwb Golff y Garnant
(12) Torri'r borfa yn ardal y Garnant
(13) Prosiect Maes Chwarae Amlddefnydd, Parc Cwmaman
(14) Clymog yn Heol Cwmaman
(15) Rhes yr Arcêd, y Garnant

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, Ysgol y Bedol a Llywodraeth Cymru ar gyllid llwybrau diogel i Gwmaman. Rwy'n falch ein bod wedi cael cyllid ar ffurf grant am £180,000. Mae'r cynllun yng Nghwmaman yn cynnwys troedffordd newydd ar hyd Heol Ffoland, llwybr troed oddi ar y ffordd ar gyfer beicwyr a cherddwyr ar hyd llwybr beicio Dyffryn Aman, yn ogystal â chroesfan sebra y tu allan i Ysgol y Bedol a chysgodfannau i rieni a rheseli beiciau yn yr ysgol;

Y llynedd gosodwyd paneli haul fel rhan o system ffotofoltaidd 50kwp yn Ysgol y Bedol ac mae'r rhain wedi arbed dros £10,000 i'r ysgol ar ei biliau trydan yn y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddechrau'r flwyddyn cafodd maes chwarae amlddefnydd newydd ym Mharc Cwmaman ei agor yn swyddogol gan y Maer. Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor Tref sydd wedi gweithio'n galed i gwblhau'r prosiect hwn yn sgil cael £50,000 gan Wern, £10,000 gan Gronfa Budd Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Betws, £10,000 yn ychwanegol gan Gronfa'r Degwm a'r gweddill gan Gyngor Tref Cwmaman.

Hefyd eleni agorais yn swyddogol y prosiect anifeiliaid gwerth £17,000 yn yr ardd yn Ysgol y Bedol a fydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r plant yn Ysgol y Bedol.

Mae Neuadd y Gweithwyr, y Garnant yn parhau i fod yn ddolur llygad. Mae camau wedi eu cymryd o ran y perchnogion ac rwyf wedi bod yn aros am i ymgynghoriad cyhoeddus gael ei gynnal ynghylch cais cynllunio am y 6 mis diwethaf.

Adran 3: Cyrff Llywodraethu Ysgolion
Rwy'n aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol y Bedol ac yn mynychu cyfarfodydd y Corff llawn ac is-bwyllgorau'n rheolaidd.

Adran 4: Cynrychiolaeth Cyrff Allanol		
Rhestr o gyrff allanol	***Cofnod Presenoldeb***	
	Nifer	***Yn bresennol***
Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog	3	3

Adran 5: Gweithgareddau a Materion Eraill
Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu'n bleser i mi barhau i fod yn Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd rwyf wedi bod yn Ddirprwy Faer Cyngor Tref Cwmaman yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Llofnodwyd gan y Cynghorydd: K Madge	**Dyddiad: 12/07/16**